

# Y Cwricwlwm

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Dyfynnir isod ragair ac amcanion cyffredinol y datganiad fel y gwelir hwynt yn nogfen yr Awdurdod Addysg :

## **Rhagair**

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl doniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Y mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol.

- Galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn potensial.
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
- Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

## **Amcanion cyffredinol**

- Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
- Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fydd sy'n gyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â technoleg hysbysiaeth.
- Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
- Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddaufydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
- Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
- Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadolo alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
- Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen.